



# Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TAR) AHO (Rhan-Amser)

Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TAR AHO) ar eich cyfer chi os ydych chi'n raddedig o bwnc perthnasol sy'n ceisio ennill cymhwyster addysgu a gydnabyddir yn genedlaethol i weithio mewn addysg bellach a'r sector ôl-orfodol ehangach.

Ar y cwrs, byddwch yn datblygu eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymarfer llwyddiannus mewn Addysg Ôl-orfodol a'ch hyder fel ymarferydd proffesiynol.

Mae hwn wedi'i leoli yn yr Academi Chweched Dosbarth (SFA).

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Prifysgol De Cymru.

## Gofynion Mynediad

Cymhwyster gradd sy'n berthnasol i'r arbenigedd pwnc a TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Bydd angen i fyfyrwyr ymgymryd ag ymarfer addysgu o leiaf 70 awr bob blwyddyn a rhaid trefnu hyn cyn cofrestru ar y cwrs.

Disgwylir i'r myfyriwr gwblhau gwiriad sgiliau ar-lein yn y cyfweiliad.

Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad DBS gwell, a godir ar gost ychwanegol i'r myfyriwr.

## Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i raglen ôl-orfodol gysylltiedig â busnes, er enghraifft: MA mewn Addysg. Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa ym meysydd addysg bellach ac addysg i oedolion, er enghraifft: athro, darlithydd, cynorthwydd addysgu ôl-orfodol neu hyfforddwr astudio.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a gweithdai ymarferol. Mae gofyn i chi gyflawni lleoliad ymarfer addysgu sylweddol yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn astudio. Mae modiwlau'n cynnwys: Cynllunio ar gyfer Dysgu, Asesu ar gyfer Dysgu, Datblygu Arfer Proffesiynol, Ymchwil Astudiaethau Achos, Siarad Testun a Llythrennedd ac Ymestyn Arfer Proffesiynol.



GRŴP COLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES  
**Datblygu Busnes**  
Business Development

Inspiring Learning,  
Enriching Lives, Delivering Success

## **Aseiad**

Bydd gofyn i chi gyflawni aseiniadau ysgrifenedig, aseiniadau ymarferol, dyddiaduron myfyriol a chyflwyniad poster wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Bydd eich sesiynau addysgu yn cael eu harsylwi yn ystod y ddwy flynedd academaidd.

## **Costau Ychwanegol**

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref. Mae'r rhaglen hon yn gofyn am wiriad manwl DBS ac bydd rhaid i fyfyrwyr dalu am y gwiriad.

## **DULL ASTUDIO**

PT

## **LLEOLIAD**

Coleg Afan - 01639 648200

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

## **HYD Y CWRS**

2Y